O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 754 (Cy. 116)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Ger Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud *10 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *17 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Ger Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith," ("*works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 17 Mawrth 2011 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of trunk road"*) yw'r darnau o Gefnffordd yr A477 Sanclêr – Doc Penfro, ger Rhos-goch yn Siroedd Caerfyrddin a Phenfro, a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.